Amgueddfa Cymru



# Adnoddau i gefnogi Her Gymunedol Amgueddfa Cymru

## CYMDEITHASOL/LLES
## FFYRDD O ADRODD STORÏAU

amgueddfa cymru
national museum wales

# Ffyrdd o adrodd storïau

Mae 7 amgueddfa yn rhan o Amgueddfa Cymru:

**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**

**Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru**

**Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**

**Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru**

**Amgueddfa Lechi Cymru**

**Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru**

**Amgueddfa Wlân Cymru**

Ewch i **www.amgueddfa.cymru** i gael rhagor o wybodaeth.

Dyma rai enghreifftiau o'r ffyrdd rydym yn adrodd storïau am Gymru a'n casgliadau.

Arddangosfeydd
Arddangosfeydd a gaiff eu curadu ar y cyd
Arddangosfeydd ar-lein/Catalogau
Digwyddiadau
Rhaglenni dysgu ffurfiol
Llwybrau/Taflenni gweithgaredd
Blogiau
Trydar
iLyfrau
Llyfrau

Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth hon i'ch helpu i ystyried y ffyrdd gorau o gyflwyno eich Her Gymunedol.

(LLUN Y CLAWR: CIENPIES DESIGN/SHUTTERSTOCK.COM)

# Arddangosfeydd

Mae arddangosfeydd yn ffordd gyffrous o gyflwyno gwrthrychau, storïau, gwaith celf, amlgyfryngau a pherfformiadau.

Fel arfer maent ar raddfa fawr ac yn dilyn thema, yn dibynnu ar y gwrthrychau a'r storïau. Gellir eu harddangos mewn un man arddangos mawr mewn amgueddfa, neu mewn sawl man gwahanol. Gellir eu harddangos hefyd y tu allan i adeilad yr amgueddfa, er enghraifft mewn pabell yn yr Eisteddfod Genedlaethol, neu gallant fod ar-lein yn unig.

Rhaid i chi ystyried pwy yw cynulleidfa eich arddangosfa gan fod hyn yn effeithio ar y cyflwyniad a'r cynnwys. Mae gennym hefyd arddangosfeydd cyffrous dros dro a gaiff eu newid o bryd i'w gilydd. Gallant fod yn ffordd o ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau neu newyddion cyfredol. Gallwch weld pob un o arddangosfeydd ein hamgueddfeydd ar ein gwefan yn **www.amgueddfa.cymru**

Mae ein rhaglen o arddangosfeydd yn newid yn rheolaidd. Dyma rai enghreifftiau o arddangosfeydd dros dro blaenorol:

(LLUNIAU: AMGUEDDFA CYMRU)

**Trysorau: Anturiaethau Archaeolegol**
*26 Ionawr–30 Hydref 2016*

I ddathlu 2016, Blwyddyn Antur yng Nghymru, dewch i weld rhai o drysorau anhygoel diwylliant poblogaidd, gan gynnwys het, chwip a siaced **Indiana Jones, penglogau grisial, aur Inca** a darganfyddiadau cynnar fel **Mymïaid o'r Aifft**.

Bydd yr arddangosfa yn adrodd y storïau y tu ôl i ddarganfyddiadau archaeolegol pwysig gwareiddiad yr Aifft, Groeg, America Cyn-Golumbaidd a Rapa Nui (Ynys y Pasg), **rhai ohonynt erioed wedi'u gweld yng Nghymru**. Bydd yn cynnwys amrywiaeth o wrthrychau a thrysorau diddorol iawn o fydoedd hynafol yn ogystal ag enghreifftiau mwy diweddar a ganfuwyd yng Nghymru.







(LLUNIAU: AMGUEDDFA CYMRU)

**Gwlân Mynyddoedd Cambria:**
**Her Dylunio a Gwneud 2015**
(bellach wedi dod i ben)
*Amgueddfa Wlân Cymru*

Arddangosfa o waith 35 o wneuthurwyr-ddylunwyr i ddangos pa mor hyblyg yw gwlân o ranbarth Mynyddoedd Cambria.






(LLUNIAU: AMGUEDDFA CYMRU)

**Deinosor Cymreig Newydd**
*Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd*

Mae sgerbwd y deinosor Cymreig newydd i'w weld yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.
Mae oddeutu 200 miliwn o flynyddoedd oed, y deinosor Jwrasig hynaf erioed i gael ei ddarganfod yn y DU. Mae'n perthyn i grŵp y theropodau sydd hefyd yn cynnwys y Tyrannosaurus rex, er bod ein deinosor ni yn crwydro'r ddaear rhyw 130 miliwn o flynyddoedd ynghynt na'i gefnder enwog.
Mae'r deinosor Cymreig yn rhywogaeth gwbl newydd i wyddonwyr, sy'n ei wneud yn ddarganfyddiad hynod o gyffrous.

# Arddangosfeydd a gaiff eu curadu ar y cyd

Mae arddangosfeydd a gaiff eu curadu, eu cynhyrchu a'u creu ar y cyd yn arddangosfeydd sy'n gofyn am gyfranogiad grŵp penodol o bobl o'r dechrau. Maent yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r cynnwys a dehongli'r stori, ac mae'n ffordd wych o roi 'llais' i'ch cynulleidfa a sicrhau bod y cynnwys yn berthnasol. Gall arddangosfeydd o'r fath fod yn fuddiol iawn i'r grŵp, yr amgueddfa a'r gynulleidfa, ond mae angen buddsoddi amser i gynnal gweithdai a thrafodaethau. Mae syniad a fframwaith cychwynnol cryf yn hanfodol. Mae'n rhaid i chi hefyd fod yn ddigon hyblyg i addasu i anghenion y grŵp.

Mae Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru wedi bod yn gweithio yn y ffordd hon ers amser, ac mae wedi datblygu arddangosfeydd gydag Eidalwyr yng Nghymru, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl ifanc a lleiafrifoedd ethnig. Ceir blog am guradu ar y cyd yma **www.amgueddfacymru.ac.uk/blog/2016-01-22/An-extreme-historical-adventure---MakingHistory-co-curation-update/**


# Arddangosfeydd ar-lein a chatalogau

Mae arddangosfeydd ar-lein yn ffordd o gyflwyno amrywiaeth eang o gasgliadau a gwybodaeth y gall cynulleidfa ehangach o lawer gael mynediad iddynt. Dyma enghraifft o gatalog o gasgliadau Rhyfel Byd Cyntaf Amgueddfa Cymru.
www.amgueddfacymru.ac.uk/rhyfel-byd-cyntaf/

Mae'r catalog ar-lein hwn yn dod ag archifau, ffotograffau a gwrthrychau ynghyd i greu adnodd gwerthfawr ar gyfer ymchwilwyr, grwpiau cymunedol, myfyrwyr a phawb sydd â diddordeb yn hanes y Rhyfel Byd Cyntaf a'i effaith ar Gymru. Caiff cofnodion newydd eu hychwanegu wrth i fwy o gasgliadau gael eu hailddarganfod a'u digideiddio.

Cefnogwyd gan Gynllun Grantiau Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog.

Dyma rai lluniau sgrin sy'n dangos y mathau o gasgliadau a gyflwynir yn y catalog. Ewch i'r wefan i ddysgu mwy.










(LLUNIAU: AMGUEDDFA CYMRU)

# Digwyddiadau

Un o'r ffyrdd y gallwn adrodd nifer o storïau amrywiol am ein casgliadau yw drwy gynnig digwyddiadau arbennig i'n hymwelwyr. Gall y rhain amrywio o weithgareddau i'r teulu, fel gwneud potiau, i sgyrsiau arbenigol ar adnabod gwenyn a theithiau y tu ôl i'r llenni.

Dyma rai enghreifftiau o ddigwyddiadau arbennig, sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd ledled Amgueddfa Cymru.



(AMGUEDDFA CYMRU)

**Amser Plant Bach**

*Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd*

Bob prynhawn Gwener caiff bocsys arbennig o deganau, gemau a llyfrau eu cuddio mewn gwahanol orielau. Nod y rhain yw helpu'r rhieni sydd â phlant 1-4 oed i ddarganfod yr Amgueddfa drwy chwarae. Fe'u datblygwyd mewn partneriaeth ag Iaith a Chwarae Caerdydd.

**Taith Ysbrydion Castell Sain Ffagan**

*Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru*

Ewch ar daith ysbrydion gyda'r nos yn y plasty hwn o oes Elizabeth, ar dir castell Normanaidd! Yn ystod y teithiau hyn byddwn yn cerdded drwy'r adeilad yn y tywyllwch er mwyn gwrando ar storïau yn seiliedig ar ei hanes anwadal dros y canrifoedd.





(LLUNIAU: AMGUEDDFA CYMRU)

**Teithiau tywys**

*Amgueddfa Wlân Cymru*

I gyfoethogi eich ymweliad ag Amgueddfa Wlân Cymru, ewch ar daith dywys gyda'n crefftwyr profiadol.

**Arddangosiadau Hollti Llechi**

*Amgueddfa Lechi Cymru*

Dewch i fwynhau'r grefft anhygoel o hollti a naddu llechi wrth i un o'n crefftwyr profiadol hollti llechen o'ch blaenau. Yn ogystal â hollti llechi'n fedrus mae ein crefftwyr hefyd yn creu gwaith celf allan o gerrig – o gylchoedd cyffredin i galonnau, fframiau lluniau a gwyntyll llechi cain.

**Cyrsiau dysgu i oedolion**

Mae cyrsiau dysgu i oedolion yn rhoi cyfleoedd i ymwelwyr ddatblygu sgiliau neu ddysgu syniadau newydd am bwnc.

Mae'r cyrsiau hyn yn cael eu cynnal ar adegau penodol ac fel arfer codir tâl amdanynt. Er enghraifft:


**Cyflwyniad i Baentio Botanegol**

*Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru*

Bydd y cwrs undydd hwn a gynhelir ar diroedd ysbrydoledig Castell Sain Ffagan yn cyflwyno paentio botanegol i chi, sef ffordd draddodiadol o ddarlunio mewn paent dyfrlliw.

# Llwybrau a thaflenni gweithgaredd

Adnoddau sydd ar gael i'w lawrlwytho neu eu casglu yn yr amgueddfa yw'r rhain a fydd yn galluogi ymwelwyr i archwilio'r safle'n fanylach. Fel arfer maent wedi'u hanelu at gynulleidfa benodol a chânt eu datblygu mewn modd creadigol er mwyn ystyried gwahanol arddulliau dysgu.




**Milwyr Rhufeinig**
*Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru*
Cyfatebwch y milwyr i'r arfau a'r arfwisgoedd, gan ddefnyddio'r modelau yn yr oriel i'ch helpu.




**Archwilio'r Amgueddfa (Museum Explorer)**
*Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd*
Llyfryn gweithgaredd i deuluoedd a grwpiau eraill er mwyn archwilio'r orielau gyda'i gilydd.

(LLUNIAU: AMGUEDDFA CYMRU)




(LLUN: AMGUEDDFA CYMRU)

**Gwau Geiriau**

Pecyn adnoddau i diwtoriaid Cymraeg i'w ddefnyddio yn Amgueddfa Wlân Cymru.

# Rhaglenni Dysgu Ffurfiol

Gall grwpiau ysgol archebu lle mewn gweithdai arbenigol neu lawrlwytho adnoddau sy'n diwallu anghenion y Cwricwlwm a threiddio'n ddyfnach i'r storïau y tu ôl i'n casgliadau. Mae nodiadau i athrawon ar gyfer yr adnoddau a'r gweithdai ar gael ar ein gwefan.

Dyma rai enghreifftiau o raglenni dysgu yn ein hamgueddfeydd:

www.amgueddfacymru.ac.uk/dysgu



**Celf – Lliw ac Argraffiadaeth**
*Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd*
Dysgwch sut roedd artistiaid yn defnyddio lliw a golau i gofnodi'r byd o'u hamgylch ar ddiwedd y 19eg ganrif.



## Taith Chwarel Vivian

*Amgueddfa Lechi Cymru*

Cyfle i fynd y tu hwnt i'r Amgueddfa ei hun i waelod Chwarel Vivian a thuag at Ysbyty'r Chwarel. Dysgwch fwy am waith peryglus y chwarelwyr ar wyneb y graig ac yn y siediau hollti, ac edrychwch ar ddyfeisiau arloesol o Oes Fictoria fel y *blondin* a'r inclein.



## Taith Danddaearol

*Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru*

Taith dywys 90 metr dan y ddaear gyda chyn-lowyr sy'n ailadrodd eu profiadau personol o weithio dan ddaear. Caiff datblygiadau allweddol yn ymwneud â hanes y pyllau glo eu trafod er mwyn pwysleisio pwysigrwydd glo i Gymru.

Caiff ein gweithdai eu datblygu i ddiwallu anghenion dysgwyr ac ystyried dulliau dysgu gwahanol. I gael rhagor o wybodaeth am ddulliau dysgu neu i ganfod eich dull dysgu chi ewch i

www.inspiringlearningforall.gov.uk/learning/whatis.html

# Blogiau

Drwy ymweld â'n gwefan a darllen ein blogiau cewch y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau, casgliadau newydd a gweithgareddau dysgu.

Dyma rai enghreifftiau:



# Blog yr Amgueddfa

Amgueddfa Cymru

## Gwobrau Gwyddonwyr Gwych 2015

Penny Tomkins, 4 Mai 2016



Bydd Amgueddfa Cymru yn dyfarnu Tystysgrifau Gwyddonwyr Gwych i can pedwardeg o ysgolion ar draws y DU, i gydnabod eu cyfraniad i Ymchwiliad Bylbiau'r Gwanwyn.

Llongyfarchiadau anferth i bob un o'r ysgolion!



### cofnodion diweddar

Captain Anthony Starkey - Master of the S.S. TORRINGTON

Adnewyddu Y Garreg Fawr

Gwobrau Gwyddonwyr Gwych 2015

Wales and Mount Everest

Volunteer Update. Dust-Up at Llainfadyn Cottage

### categorïau

Pob cofnod

# Twitter a'r cyfryngau cymdeithasol eraill

Mae Twitter yn ffordd wych o hysbysu ymwelwyr am ddigwyddiadau a gweithgareddau. Gellir ei ddefnyddio i ymateb i newyddion yn ddyddiol ac mae'n golygu y gallwch gadw mewn cysylltiad â'ch ymwelwyr.


Amgueddfa Cymru @AmgueddfaCymru · May 6
Diolch @huwthomas am eitem wych ar arddangosfa Brwydr Mametz yn @Museum_Cardiff: bbc.co.uk/news/uk-wales-.... Werth gweld!

World War One: Artist Christopher Williams's Mametz - BBC News
A World War One work by artist Christopher Williams, showing the battle of Mametz Wood in the Somme, is the centrepiece of a new centenary exhib...
bbc.co.uk

1


Amgueddfa Cymru Retweeted
Amgueddfa Caerdydd @Museum_Cardiff · Apr 12
Dewch i gael sgwrs gyda gwyddonwyr yr Amgueddfa yn ein stondin yn y Sioe Flodau #RHSCardiff ar y penwythnos


6 1


Amgueddfa Cymru Retweeted
Amgueddfa Volunteers @AmgueddfaVols · Mar 30
Roedd dros 1000 o wirfoddolwyr a staff wedi helpu ni adeiladu #BrynEryr @StFagans_Museum! #architectureMW

9 1

# Llyfrau am ein casgliadau

Mae nifer o lyfrau ar gael am ein casgliadau.
Mae'r rhain fel arfer yn darparu mwy o wybodaeth fanwl am gasgliadau neu arddangosfeydd penodol.
Er enghraifft:




**Achub Eglwys Sant Teilo: Ailgodi adeilad canoloesol**

Hanes eglwys wylaidd ond hanesyddol.
Gan ddechrau yn y Canol Oesoedd, mae'r llyfr yn ein tywys drwy gyfnodau o wrthdaro, adferiad a chefnu ar yr eglwys i'r adeilad ysblennydd a phoblogaidd a welwn heddiw. Mae *Achub Eglwys Sant Teilo* yn disgrifio'r broses fanwl o ddatgymalu a chofnodi gweddillion yr eglwys ac yna adfer yr addoldy i'r hyn a fu gynt.

# iLyfrau

Mae iLyfrau yn offer digidol defnyddiol ac yn ffordd gyffrous o adrodd stori neu ddarparu gwybodaeth. Llyfrau rhyngweithiol yw iLyfrau y gellir eu defnyddio ar dabledi a gallant gynnwys graffiau, diagramau a lluniau er mwyn i'r darllenwr gynnwys ei wybodaeth neu ei ddata ei hun ynddynt.

